10 things all childcare providers need to know about The Childcare Offer for Wales

pacey | CYMRU

1 3- and 4-year olds of working parents/carers in Wales are entitled to 30 hours per week of government-funded early education and childcare during term time (39 weeks), and a further 9 weeks of 30 hours childcare for holiday provision - 48 weeks total.

2 To qualify, both parents/carers must be working more than 16 hours per week at the national living wage (or national minimum wage for those under 25) and earn no more than £100,000 per year. Parents/carers of lone parent families need to be working.

3 All 3- and 4-year-olds remain entitled to a minimum of 10 hours early education (Foundation Phase provision) per week during term time, regardless of parental earnings.

4 Care Inspectorate Wales (CIW) registered childcare and play providers are eligible to deliver funded places of up to 30 hours per week. You would need to apply to your local authority to deliver the offer. Local authorities pay childcare providers monthly – how payments are made varies according your local authority.

5 It is not compulsory to offer the Childcare Offer for Wales It is up to you to decide whether you offer funded places. However it is important to consider the impact on your business sustainability.

6 Registered childminders are able to deliver the Childcare Offer for a **child who is a relative** but does not live with them.

7 If a child cannot attend due to illness, you will still get paid for the hours booked. If a child continues not to attend you should contact **your local authority**.

8 Funded hours cannot be banked or transferred across weeks, unused weekly hours are simply unused.

9 The parent/carer can take the offer up with two registered childcare settings in addition to their foundation phase nursery setting in any given day. In the holidays they can use maximum of two registered settings.

10 The hourly rate for The Childcare Offer for Wales is £4.50. **The Welsh Government guidance** states that the hourly rate does not include consumables (meals, snacks, nappies, wipes, etc.) or extra services (outings, classes, etc.) You can charge parents/carers for these as long as the additional charges are not a condition of taking up a funded place and meet Welsh Government requirements.

10 peth y mae angen i holl ddarparwyr gofal plant eu gwybod am Gynnig Gofal Plant Cymru

pacey | CYMRU

1 Mae gan blant 3 a 4 oed sydd â rhieni/gofalwyr sy'n gweithio yng Nghymru hawl i 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan lywodraeth yn ystod y tymor (39 wythnos), a 9 wythnos bellach o 30 awr o ofal plant ar gyfer darpariaeth gwyliau – cyfanswm o 48 wythnos.

2 Er mwyn cymhwyso, rhaid i'r ddau riant/gofalwr fod yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos ar y cyflog byw cenedlaethol (neu isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer y rheini sy'n iau na 25 oed) ac nad ydynt yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn. Rhaid i rieni/gofalwyr mewn teulu un rhiant fod yn gweithio.

3 Mae pob plentyn 3 a 4 oed yn parhau â'r hawl i isafswm o 10 awr o addysg gynnar (darpariaeth Cyfnod Sylfaen) yr wythnos yn ystod y tymor, waeth beth yw enillion eu rhieni.

4 Mae darparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gymwys i gyflenwi lleoedd wedi'u hariannu o hyd at 30 awr yr wythnos. Byddai'n rhaid i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol i gyflenwi'r ddarpariaeth. Mae awdurdodau lleol yn talu darparwyr gofal plant yn fisol – mae sut y mae taliadau yn cael eu gwneud yn amrywio yn unol â'ch awdurdod lleol.

5 Nid yw'n orfodol i chi gynnig Cynnig Gofal Plant Cymru. Eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a ydych chi eisiau cynnig lleoedd wedi'u hariannu. Serch hynny mae'n bwysig ystyried yr effaith ar gynaliadwyedd eich busnes.

6 Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn gallu cyflenwi'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer **plentyn sy'n berthynas** ond nad yw'n byw gyda hwy.

7 Os na all plentyn fynychu oherwydd salwch, byddwch chi'n dal i gael eich talu am yr oriau sydd wedi'u trefnu. Os bydd plentyn yn parhau i beidio â mynychu dylech gysylltu **â'ch awdurdod lleol.**

8 Ni ellir bancio na throsglwyddo oriau a ariennir ar draws wythnosau. Bydd oriau wythnosol heb eu defnyddio yn parhau heb eu defnyddio.

9 Gall y rhiant/gofalwr ddefnyddio'r cynnig gyda dau leoliad gofal plant cofrestredig yn ychwanegol at eu lleoliad meithrin cyfnod sylfaen mewn unrhyw ddiwrnod penodol. Yn ystod y gwyliau, gallant ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad cofrestredig.

10 Y gyfradd bob awr ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru yw £4.50. Mae **Arweiniad Llywodraeth Cymru** yn datgan nad yw'r gyfradd fesul awr yn cynnwys nwyddau traul (prydau, byrbrydau, cewynnau, clytiau sychu, ayyb) na gwasanaethau ychwanegol (gwibdeithiau, dosbarthiadau, ayyb). Gallwch chi godi tâl ar rieni/gofalwyr am y rhain ar yr amod nad yw'r costau ychwanegol yn amod ar gymryd lle wedi'i ariannu a'u bod yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.